OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 517 (Cy. 106)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym* | *23 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

*ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:*

*(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a*

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd ym Mhontnewydd ar Wy yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 153 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Cyffredin Lane tua'r de at bwynt 250 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Heol Fferm Woodcastle.

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder o 30 mya) 2014(**2**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2(1), drwy hyn wedi eu hatal yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

(**2**) O.S. 2005/1637 (Cy.126)

**Cyfnod Para ‘r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 20 Chwefror 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru